

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL MASNACH (AWSTRALIA A SELAND NEWYDD)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chaniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022. Mae dolen i'r Bil i'w gweld [yma](#).

Amcanion Polisi

3. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw darparu'r mesurau angenrheidiol i weithredu'r cytundebau masnach rydd (FTA) y mae'r DU wedi cytuno arnynt gydag Awstralia a Seland Newydd (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "y Cytundebau"). I gefnogi hyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i alluogi rhwymedigaethau caffael y Llywodraeth a nodir yn y Cytundebau i gael eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig. Mae hefyd yn galluogi ymdrin â materion eraill sy'n deillio o Benodau caffael y Cytundebau, neu sy'n gysylltiedig â hwy, gan gynnwys gwneud i'r newidiadau gweithredu fod yn gymwys yn gyffredinol er mwyn i gyfraith caffael domestig fod yn gymwys yn gyson ac yn gydlynol.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT).
5. Mae'r Bil yn ymdrin ag un mater ac mae'n ofynnol iddo alluogi gweithredu rhwymedigaethau caffael y Llywodraeth a nodir ym Mhennod 16 o'r Cytundebau. Rhaid i'r Bil fod mewn grym cyn i'r Cytundebau ddod i rym yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn torri unrhyw rwymedigaethau a nodir yn y Cytundebau.
6. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth y DU, yn ogystal â Gweinidogion Cymru, wneud newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o rwymedigaethau caffael llywodraeth y DU o dan y Cytundebau.
7. Roedd fy swyddogion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi sy'n gofyn am y Bil – sef penodau caffael y Llywodraeth o'r cytundebau FTA gydag Awstralia a Seland Newydd. Mae swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda thimau negodi DIT a thîm polisi caffael DIT. Trafodwyd y newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i benodau caffael y Llywodraeth gyda swyddogion, cyn iddynt gael eu cytuno'n derfynol fel rhan o'r trafodaethau.
8. Fodd bynnag, nid oedd fy swyddogion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil ei hun. Roedd swyddogion yn rhan o drafodaethau gyda swyddogion polisi caffael DIT pan godwyd y posibilrwydd o gyflwyno bil i Senedd y DU am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2022. Drwy gydol y trafodaethau hyn, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddogion Llywodraeth y DU o'r DIT a Swyddfa'r Cabinet ac eglurwyd yn y cyfarfodydd hyn na fyddai bil a oedd yn rhoi pwerau

cydamserol yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru. Er bod swyddogion DIT wedi defnyddio amseriad ac effeithlonrwydd i ddechrau fel rheswm a chyfiawnhad dros gynnwys pwerau cydamserol, nid yw'n glir pam mae DIT yn credu y dylai'r Bil gynnwys pwerau cydamserol yn unig. Gwelodd fy swyddogion y Bil drafft am y tro cyntaf ar 6 Mai.

9. Mae'r Bil hwn yn rhyngweithio â Chytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia a Chytundeb Masnach Rydd y DU-Seland Newydd. Rhaid i'r Bil gael ei basio a chael Cydsyniad Brenhinol cyn i'r Cytundebau ddod i rym yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn torri ei rhwymedigaethau o dan y Cytundebau pan fyddant yn dod i rym. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn ceisio cael Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd 2022/dechrau 2023.
10. Mae'r Bil hefyd yn rhyngweithio â'r Bil Caffael, a gyflwynwyd hefyd i Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai 2022, sy'n cael ei noddi gan Swyddfa'r Cabinet ac sydd ar gael [yma](#), a cheisir Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil Caffael erbyn diwedd Gwanwyn 2023. Mae'r Bil i'w ddiddymu drwy orchymyn a wneir o dan y Bil Caffael, yn ogystal â'r diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a wneir gan y Bil. Mae'r Bil Caffael hefyd yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd, felly bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y bil hwnnw hefyd yn cael ei osod gerbron y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 29.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

11. Mae Cymal 1 yn ganolog i'r Bil ac mae'n rhoi pwerau i bob un o'r pedair llywodraeth yn y DU. I'r graddau y rhoddir y pŵer i Weinidogion Cymru, mae'r Bil o fewn cymhwysedd y Senedd ac mae'n cynnwys mater datganoledig o fewn ystyr adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae pob darpariaeth arall yn y Bil yn dilyn o'r pwerau a nodir yng Nghymal 1, felly mae angen cydsyniad ar bron pob un o ddarpariaethau'r Bil.
12. Mae paragraff 9 o Atodlen 1 yn addasu cymhwysedd y Senedd. Mae'n datgymhwyso'r gofyniad ym mharagraff 8(1)(c) i gael cydsyniad Gweinidog y Goron cyn dileu'r gofyniad o dan y Bil hwn i ymgynghori â Gweinidogion y DU neu i gael eu cydsyniad cyn gwneud rheoliadau Cymal 1. Mae hefyd yn datgymhwyso'r gofyniad ym mharagraff 11(1)(a) i gael cydsyniad Gweinidog y Goron cyn dileu pŵer cydamserol Gweinidogion y DU o dan Gymal 1.

Cymal 1

13. Mae Cymal 1 yn creu pwerau i wneud rheoliadau i awdurdod priodol wneud darpariaethau y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn briodol i weithredu Penodau caffael y llywodraeth o Gytundebau'r DU-Awstralia a'r DU-Seland Newydd, neu i ymdrin â materion sy'n deillio o'r Penodau hynny neu sy'n gysylltiedig â hwy.

Cymal 2

14. Mae Cymal 2 yn nodi rhai o'r pethau y gall pŵer Cymal 1 eu gwneud, er enghraifft, gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol.

Cymal 3

15. Mae Cymal 3 yn cyflwyno Atodlenni 1 a 2. Mae Atodlen 1 yn cynnwys cyfyngiadau ar arfer pŵer cymal 1 gan lywodraethau datganoledig yn ogystal ag eithriadau rhag cyfyngiadau ar sail cymhwysedd y Senedd. Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaethau ynghylch gwneud rheoliadau Cymal 1, er enghraifft y gweithdrefnau seneddol sy'n gymwys.

Atodlen 1, paragraffau 1 a 6

16. Mae paragraff 1 yn gwahardd llywodraethau datganoledig rhag gwneud darpariaeth mewn rheoliadau Cymal 1 sydd y tu allan i gymhwysedd datganoledig; caiff *cymhwysedd datganoledig* ei ddiffinio ym mharagraff 6.

Atodlen 1, paragraff 2

17. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael cydsyniad Gweinidogion y Goron wrth arfer pwerau Cymal 1 mewn achosion penodol ac yn datgymhwyso'r gofyniad hwnnw mewn achosion eraill.

Atodlen 1, paragraff 3

18. Mae'r paragraff hwn yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud darpariaeth mewn rheoliadau Cymal 1 mewn achosion penodol oni wneir y ddarpariaeth honno ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron, mae'n datgymhwyso'r cyfyngiad hwnnw mewn achosion eraill.

Atodlen 1, paragraff 4

19. Mae'r paragraff hwn yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud darpariaeth yn rheoliadau Cymal 1 heb ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron mewn achosion penodol ac yn datgymhwyso'r gofyniad hwnnw mewn achosion eraill.

Atodlen 1, paragraff 9

20. Mae'r ddarpariaeth hon yn addasu paragraff 9(9) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru fel y gall y Senedd ddileu'r gofyniad o dan y Bil hwn i gael cydsyniad Gweinidog y Goron cyn arfer pwerau Cymal 1. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn addasu paragraff 11(6) o Atodlen 7B fel y bydd y Senedd yn gallu dileu swyddogaeth gydredol Gweinidogion y Goron o dan Gymal 1.

Atodlen 2 – paragraff 1(b)

21. Mae'r paragraff hwn yn nodi bod yn rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Gymal 1 gael eu gwneud drwy offeryn statudol.

Atodlen 2 – paragraff 2(3)

22. Mae paragraff 2 yn nodi'r weithdrefn seneddol sy'n gymwys i reoliadau a wneir o dan Gymal 1 gan unrhyw un o'r Llywodraethau sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain. Mae paragraff 2(3) yn gwneud rheoliadau Cymal 1 a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol

Atodlen 2 – Cymal 3

23. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r weithdrefn seneddol sy'n gymwys i reoliadau a wneir o dan Gymal 1 gan unrhyw un o'r Llywodraethau datganoledig sy'n gweithredu ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron.

Safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

24. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil ac ysgrifennodd y Gweinidog Polisi Masnach at Weinidog yr Economi ar 11 Mai yn amlinellu'r Bil ac yn gofyn am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

25. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau cydamserol (yng Nghymal 1) yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer biliau'r DU. Mae DIT, ar lefel swyddogol, wedi nodi nad yw'n bwriadu cynnwys pwerau cydamserol neu gyfatebol yn y Bil am resymau hwylustod a chyfleustra i ganiatáu i'r Bil gael ei basio cyn gynted â phosibl a lleihau'r risg na ellir gweithredu'r cytundebau FTA.

26. Ysgrifennais at Lywodraeth y DU ar 16 Mai i ofyn i'r Gweinidog polisi masnach ailystyried drafft presennol y Bil ac yn hytrach gynnwys naill ai pwerau cyfatebol neu gydamserol plws a phwerau yn y Bil.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)

27. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth gaffael yng Nghymru i fodloni gofynion penodau caffael y llywodraeth yng Nghytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia a Seland Newydd. Byddai'r pwerau a roddir yn y Bil hwn yn sicrhau nad yw cyfraith caffael yng Nghymru yn peri i'r DU dorri'r Cytundebau cyn gynted ag y daw'r Cytundebau i rym.

28. Nid oes digon o amser i gyflwyno bil cyfatebol yn y Senedd ac felly, mewn egwyddor, rwy'n credu ei bod yn briodol i Senedd y DU ddeddfu ar gyfer Cymru yn yr achos hwn. Mae'r newidiadau arfaethedig hefyd yn gul o ran cwmpas ac wedi bod yn destun trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

29. Fodd bynnag, ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad oherwydd er bod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, mae hefyd yn rhoi'r pwerau hynny i Weinidogion y DU heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

30. Nid oes unrhyw welliannau wedi'u gwneud i'r Bil ar hyn o bryd.

Goblygiadau ariannol

31. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r pwerau o dan y Bil.

Casgliad

32. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau cydamserol yng Nghymal 1. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi nad yw'n fodlon rhoi pwerau cyfatebol neu gydamserol plws sy'n cwmpasu maes o gymhwysedd datganoledig. Yn fy marn i, nid yw'r cyfiawnhad a roddwyd dros wneud hyn yn foddhaol, felly argymhellaf fod y Senedd yn gwrthod y Bil ar ei ffurf bresennol ac yn atal ei chydsyniad.

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi
25 Mai 2022